| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 29ain 2023 |
| **TEITL** | Gwynedd ac Eryri 2035 - Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld |
| **PWRPAS** | Gwybyddu aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Yn ddiweddar mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi adolygu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal. Cychwynnodd adolygiad o'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn 2018 gyda chyfres o weithdai ar gyfer y sector twristiaeth a chynrychiolwyr cymunedau. Yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.

2.0 Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu gweledigaeth ac egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

## 2.0 Y PRIF FATERION

2.1 Wrth baratoi y Cynllun gwelwyd fod nifer o brif faterion yn codi:

- Pwysau ar ardaloedd a gwasanaethau cyhoeddus e.e. meysydd parcio, biniau, ffyrdd, ardaloedd gwledig.
- Covid wedi creu tensiynau mewn rhai ardaloedd gyda niferoedd ymweld digynsail.
- Lefelau cyflogau a chyflogaeth tymhorol o fewn y sector twristiaeth.
- Diffyg amrywiaeth yn yr economi wledig a gor-ddibyniaeth posib ar dwristiaeth
- Teimladau negyddol o fewn i rai cymunedau ac ardaloedd, ond gall bod cyfleon os gweithredir yn wahanol.
- Effaith posib ar yr iaith a chymunedau a'r amgylchedd
- Angen Mesuryddion gwell i fesur unrhyw effeithiau negyddol a chadarnhaol.
- Cyfle i blethu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i ddatblygiad Cynlluniau Adfywio Ardal ar draws Gwynedd.

## 3.0 PARATOI CYNLLUN DRAFFT

3.1 Yn ystod 2022 cynhaliwyd 5 digwyddiad trwy Zoom i drafod yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri. Cynhaliwyd sesiynau hefyd i gynghorwyr ar draws Gwynedd. Yn dilyn adborth o'r gweithdai hyn yn ogystal â rhai blaenorol, fe ddatblygodd Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri gynllun drafft. Hefyd rhoddwyd sylw i arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol.

3.2 Yn ogystal sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Economi Ymweld Cynaliadwy i gynghori'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol ar gynnwys y Cynllun Strategol, y dulliau mesur effaith a'r dulliau gweithredu priodol. Roedd gan yr Uned AHNE gynrychiolaeth ar y grŵp yma. Mae adborth y Grŵp Tasg a Gorffen oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau, busnesau a phrif bartneriaid wedi ei ymgorffori yn y Cynllun terfynol a'r modelau gweithredu.

3.3 Hefyd cynhaliwyd Asesiad Effaith er mwyn asesu unrhyw effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r Asesiad hwnnw'n cydnabod bod bylchau yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol ac ymgynghori gyda grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig – ond bwriedir ymgysylltu'n benodol gyda chynrychiolwyr ar ran pobl a nodweddion gwarchodedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion ac ymateb iddynt trwy'r Cynllun Gweithredu fydd yn cael ei gytuno arno. Mae'r Asesiad yn nodi bod modd i'r Cynllun gael effaith bositif os bydd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol ac effeithlon gan y strwythurau gweithredu fydd yn cael eu mabwysiadu.

## 4.0 Y CYNLLUN STRATEGOL

4.1 Y Weledigaeth a osodwyd ar gyfer y Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri yw *Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri* .

4.2 Hefyd diffiniwyd Egwyddorion ac Amcanion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Gellir gweld yr egwyddorion isod:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

4.3 **Cyllid -** er gwaetha'r rhagolygon ariannol mae disgwyl y bydd y Cynllun yn dylanwadu ar bolisïau eraill Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid yn y maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli'r amgylchedd, hyfforddiant a sgiliau, adfywio, cefnogi busnes, digwyddiadau ayb gan ychwanegu gwerth trwy newid pwyslais gweithgareddau neu bolisïau. Gobeithir y bydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn agor drysau at arian Llywodraethau Prydain a Chymru a chronfeydd ariannu eraill yn y dyfodol.

4.4 Mae Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 wedi ei fabwysiadu fel Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld yn yr ardal gan Barc Cenedlaethol Eryri a hefyd gan Gabinet Cyngor Gwynedd (14eg o Chwefror 2023).

4.5 Hefyd penderfynwyd sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 a'i fesuryddion perthnasol.

4.6 Gellir gweld copi o'r Cynllun cyflawn drwy ddilyn y linc:
Layout 1 (llyw.cymru)

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth